# Ymgynghoriad ar ein Cynllun Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2016-17

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwen, 8am - 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Caniateir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Gyfoeth Natruriol Cymru

## Cynnwys


1. Cyflwyniad…………………………………………………………………………….. 3
2. Newidiadau i daliadau sylfaenol………………………………………………… 4
2.1 Prif Negeseuon ……………………………………………………………. 4
2.2 Cynigion o ran Taliadau……………………………………………………… 4
2.2.1 Tynnu Dŵr - Taliadau Unedau Gwella Amgylcheddol (EIUC)………… 4
2.2.2 Pob Cynllun arall…………………………………………………………… 5
3. Newidiadau technegol………………………………………………………………… 5
3.1 Newidiadau technegol i'r Cynllun Trwyddedu Amgylcheddol (Gweithfeydd a Chyfleusterau Gwastraff)……………………………………………………………… 5
3.1.1 Gweithrediadau Gwastraff Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) - Lluosyddion Perfformiad Gwael…………………………………………………… 5
4. Taliadau Newydd ………………………………………………………………………7
4.1 Trwyddedu Amgylcheddol - Perygl o Lifogydd ………………………………7
5. Newidiadau eraill y tu allan i'r adolygiad hwn ……………………………………...10
5.1 Codi tâl am Wasanaethau Cynllunio Atodol……………………………………..10
5.2 Trwyddedu Morol ……………………………………………………………………..12
5.3 Y Gyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni ……………………………………………..12
6. Materion eraill i'w Nodi ……………………………………………………………..13
6.1 Cysylltiadau â Chynllun Gwerthuso Risg Gweithredol (OPRA) Trwyddedu Amgylcheddol ……………………………………………………………………………..13
7. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ……………………………………………………..13
7.1 Sut i ymateb…………………………………………………………………………..13
7.2 Diogelu Data ……………………………………………………………………..14
7.3 Camau Nesaf ………………………………………………………………………14

Atodiad 1 - Diffiniad o weithgaredd gyda risg llifogydd fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau drafft Caniatâd Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2015

Atodiad 2 - Safleoedd Dynodedig

# 1. Cyflwyniad

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r sefydliad cyntaf o'i fath. Ei bwrpas yw sicrhau bod ein hadnoddau naturiol a'n hamgylchedd yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio mewn ffordd sy'n dda i bobl, yn dda i'r amgylchedd ac yn dda i'r economi.

Mae hyn yn golygu bod ein cylch gwaith yn eang ac mae'n cynnwys darparu amrywiaeth o wasanaethau rheoleiddio. Yn unol â gofynion y Llywodraeth, mae'n rhaid i ni adennill costau ein gwasanaethau rheoleiddio oddi wrth y rhai sy'n cael eu rheoleiddio gennym, yn hytrach na chael ein hariannu trwy drethu cyffredinol. Mae'r ffioedd a'r taliadau a godir ar gyfer costau rheoleiddio yn cyfrif am tua 20% o gyfanswm cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru o £180m[1].

Mae ein Cynllun Ffioedd a Thaliadau'n cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod ein costau'n cael eu talu a'n gofynion technegol yn cael eu cwrdd. Gallwch lawr lwytho copi o'n cynllun codi tâl presennol ni o'n gwefan[2]. O ganlyniad i'n hadolygiad diweddaraf rydym yn bwriadu gwneud nifer fach o newidiadau i'n taliadau sylfaenol ac i rai o'r gofynion technegol o fewn trefniadau taliadau penodol.

Rydym wedi sefydlu Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau, yn cynnwys amryw gyrff masnachol a chynrychioladol ein rhanddeiliaid, er mwyn trafod cynigion a datblygu strategaeth a'n cynlluniau codi tâl ar gyfer y dyfodol. Hoffem ddiolch i aelodau'r grŵp am eu hymroddiad i gynrychioli eu haelodau trwy weithio â ni yn y modd hwn, yn awr ac yn y dyfodol.

Yn ogystal â dilyn ein hegwyddorion rheoleiddio[3] a'r Cod Rheoleiddwyr, rydym wedi ymrwymo i'r egwyddorion canlynol:

- tryloywder ein penderfyniadau wrth godi taliadau
- osgoi traws gymorthdalu rhwng trefniadau
- darparu gorwelion cynllunio tymor hirach lle bynnag y bo'n bosibl
- osgoi cylchoedd o dorri ac yna godi taliadau trwy reoli ein gwargedau a'n diffygion yn weithredol
- cadw taliadau mor isel â phosibl trwy hybu gwell effeithlonrwydd yn barhaus

Rydym yn ceisio eich sylwadau a'ch barn ar y cynigion ar gyfer ein ffioedd a'n taliadau ar gyfer 2016-17. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am 12 wythnos ac yn dod i ben ar 26 Tachwedd 2015. Defnyddir y canlyniadau wrth lunio ein cynllun terfynol, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth, gan amcanu cyflwyno'r cynllun newydd o Ebrill 2016.

---

[1] Cynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru http://naturalresources.wales/about-us/strategies-and-plans/corporate-plan

[2] www.naturalresources.wales/how-we-regulate-you/our-charges

[3] www.naturalresources.wales/how-we-regulate-you/regulatory-principles

Yn ogystal â'r cynigion hyn, bydd ymgynghoriad ar wahân ar gyfer newidiadau i dreth trwydded pysgota â gwialen ar gyfer 2016-17. Bydd hwn yn berthnasol ar gyfer Cymru a Lloegr ac yn ymgynghoriad ar y cyd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

# 2. Newidiadau i Daliadau Sylfaenol

## 2.1 Prif Negeseuon

Ar sail y cynigion yn y ddogfen hon, bydd y taliadau a godir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2016-17 yn aros ar lefelau cyfredol 2015-16. Byddwn yn ymdrechu i ddarparu arbediadau effeithlonrwydd digonol i amsugno  chwyddiant a phwysau pellach ar ein costau ar gyfer 2016-17.

Mae'r Taliad Uned Gwelliant Amgylcheddol (EUIC) yn eithriad i hyn, a bydd hwn yn lleihau i sero.

## 2.2 Cynigion o ran Taliadau

Fel sefydliad newydd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n parhau i fynd drwy gyfnod o drawsnewid ac yn parhau i adolygu ei wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gweithredu adolygiadau cynhwysfawr o wasanaethau a fydd yn cynyddu effeithlonrwydd ein systemau a'n prosesau. Bydd hyn yn gymorth i gyflawni'r targedau ar gyfer arbedion a gofnodwyd yn yr achos busnes wrth sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru, a bydd yn galluogi'r taliadau i aros mor isel â phosibl.

O bersbectif codi tâl, rydym wedi ymrwymo yn ymgynghoriad y llynedd i ddatblygu ein dull o fodelu costau  er mwyn i'n sylfaen gostau hirdymor fod yn fwy sicr, a bydd hyn yn golygu bod cynlluniau unigol yn fwy tryloyw i'n rhanddeiliaid.

Yn dilyn o'r ymrwymiad hwn, yn ddiweddar rydym wedi datblygu model codi tâl newydd a fydd yn helpu i fireinio sut ydym yn gosod ein ffioedd a'n taliadau yn y dyfodol o ran adennill costau. Ar hyn o bryd mae ein timau yn gweithio drwy'r model hwn, ac rydym yn disgwyl y bydd y dadansoddiad cychwynnol hwn ar gael yn fuan at ddiben modelu costau.

Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i ddefnyddio'r dystiolaeth hon i osod ffioedd yn 2016-17, oherwydd y lefel sylweddol o drawsnewid parhaus ym mhob rhan o'r sefydliad, a'n dymuniad i osgoi unrhyw amrywiadau mewn ffioedd ar gyfer ein rhanddeiliaid.

Yn hyn o beth, ac eithrio taliadau EIUC, bwriadwn gynnal taliadau sylfaenol 2016-17 ar lefelau cyfredol 2015-16. Fodd bynnag,  byddwn yn parhau i ymrwymo i rannu prif ganlyniadau'r dadansoddiad hwn o weithgareddau gyda'n rhanddeiliaid, ac yn parhau i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth o weithgareddau'n barod ar gyfer ymgynghoriad 2017-18.

Felly bwriadwn gynnig y newidiadau canlynol i daliadau sylfaenol:

### 2.2.1 Tynnu Dŵr – Taliadau Unedau Gwella Amgylcheddol (EIUC)

Blwyddyn ariannol gyfredol 2015-16 fydd y flwyddyn olaf y byddwn yn codi tâl EIUC o ganlyniad i'r cynllun iawndal *Adfer Dulliau Cynaliadwy o Dynnu Dŵr.* Pwrpas y cynllun yw codi arian a fyddai'n cael ei ddefnyddio i ddigolledu cwsmeriaid lle byddwn yn newid neu'n

adalw trwydded tynnu dŵr i osgoi niwed amgylcheddol. Bydd y gronfa hon yn cyrraedd y lefel angenrheidiol ar gyfer y taliadau iawndal a ragwelir erbyn diwedd 2015-16.

Felly, bydd yr elfen hon (£8.69/1000m$^3$) yn cael ei dileu o'r cylch tâl parhau am dynnu dŵr ar gyfer cwsmeriaid ar wahân i gwmnïau dŵr yn 2016-17, er bydd y tâl am uned safonol, £13.58/1000 m$^3$, yn dal yn berthnasol i bob cwmni yng Nghymru sy'n tynnu dŵr (ar wahân i'r rhai yn nalgylch Hafren). Gallai newidiadau yn y dyfodol olygu fod angen inni adfer y tâl hwn, fodd bynnag byddai ymgynghoriad ynglŷn â hyn ar yr adeg briodol.

### 2.2.2 Pob Cynllun Arall

Bydd holl lefelau taliadau eraill yn aros ar lefelau 2015-16, heblaw am y newidiadau technegol a amlinellwyd yn Adran 3 yr ymgynghoriad hwn.

Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol y bydd ymgynghoriad ar wahân ar dreth trwydded gwialen 2016-17. Bydd hwn yn ymgynghoriad ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymwneud â Chymru a Lloegr.

**Cwestiwn 1. Ydych chi'n cefnogi'r bwriad i ddileu taliadau EIUC ar gyfer cwsmeriaid ar wahân i gwmnïau dŵr yn 2016-17?**

**Cwestiwn 2. Ar gyfer pob Cynllun Rheoleiddio arall, ydych chi'n cefnogi'r bwriad i gynnal taliadau 2016-17 ar lefelau cyfredol 2015-16, wrth i ni ddatblygu ein dull modelu costau a'n rhaglen effeithlonrwydd?**

# 3. Newidiadau technegol

## 3.1 Newidiadau technegol i'r Cynllun Trwyddedu Amgylcheddol (Gweithfeydd a Chyfleusterau Dŵr)

Rydym yn bwriadu gwneud y newidiadau canlynol i'r Cynllun Trwyddedu Amgylcheddol (Gweithfeydd a Chyfleusterau Dŵr) ar gyfer 2015-16.

### 3.1.1 Gweithrediadau Gwastraff Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) - Lluosyddion Perfformiad Gwael

Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar haenau wrth asesu a yw'r gweithredwr yn cydymffurfio ai peidio, o Fand A am y safleoedd sy'n perfformio orau i Fand F ar gyfer y rhai gwaethaf, ac ar faint o waith rheoleiddio sydd ei angen gennym ni. Fodd bynnag, mae safleoedd sy'n perfformio'n wael yn costio llawer mwy i'w rheoleiddio nag y gallwn ei adennill trwy godi tâl, er gwaetha'r trefniant presennol sy'n cynyddu'r ffioedd rhwng 125% a 300%, gan ddibynnu ar eu band cydymffurfio. Y rheswm am hyn yn bennaf yw bod angen treulio mwy o amser ac ymdrech yn newid dull perfformwyr gwael i sicrhau bod yr amgylchedd a phobl Cymru'n cael eu diogelu. Rydym yn gwneud hyn trwy arolygiadau, archwiliadau a monitro fel rhan o Gynllun Asesu Cydymffurfiaeth, a gaiff ei ddatblygu ar gyfer pob safle.

Er enghraifft, byddai'r tâl cynhaliaeth blynyddol safonol ar gyfer safle datgymalu cerbydau ar ddiwedd eu hoes gyda llif blynyddol yn llai na 2,500 tunnell yn £779. Pe byddai gan y safe hon fand cydymffurfiaeth band E ar gyfer 2014, byddai'r tâl yn 150% o'r gynhaliaeth safonol, neu £1,169. Dim ond ychydig dan 6 niwrnod o waith rheoliadol y byddai hyn yn ei

ariannu. Tra ar safle nodweddiadol o'r fath sy'n perfformio'n wael, byddwn yn fwy tebygol o dreulio gwerth oddeutu 27 diwrnod o ymdrech rheoliadol, sy'n gyfwerth â thâl cynhaliaeth o £5,400.

Dangosodd astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd ei bod yn gallu cymryd hyd at 43 diwrnod i reoleiddio safle sy'n perfformio'n wael ac er mai dim ond nifer fechan o safleoedd sy'n perfformio'n wael yn ôl cyfran, mae'n siomedig fod nifer o berfformwyr gwael yn aros yn y bandiau is am rai blynyddoedd.

Mae'r ymdrech reoleiddio ychwanegol a wneir yn y safleoedd hyn sy'n perfformio'n wael yn cael ei chyllido ar hyn o bryd drwy Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru. Ni fyddai cynyddu taliadau yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r egwyddor 'y llygrwr yn talu' gan y byddai hyn yn cosbi safleoedd sy'n perfformio'n dda. Felly mae angen inni gynyddu'r costau hyn i dalu am y gwaith mewn modd sy'n targedu mwy.

I gywiro hyn rydym yn bwriadu cyflwyno lluosydd ail haen ar gyfer safleoedd sydd wedi bod yn y bandiau isaf am ddwy flynedd yn olynol. Manylir ar y rhain yn Nhabl 1.

Tabl 1. Lluosyddion

| Band Cydymffurfio | Lluosyddion Band Cydymffurfio | |
|---|---|---|
| | Gwerth cyfredol ar gyfer safleoedd ym Mand D, E ac F | Gwerth arfaethedig ar gyfer safleoedd sydd wedi bod ym Mand D, E ac F am ddwy flwyddyn lawn |
| D | 125% | 200% |
| E | 150% | 300% |
| F | 300% | 500% |

Bydd y lluosydd ail haen yn parhau i gael ei ddefnyddio nes bod y safle'n symud i fandiau cydymffurfio A-C. Bydd y newid hwn yn dod ag incwm ychwanegol sydd ei angen i ariannu'r gwaith rheoleiddio ychwanegol y mae angen ei wneud yn y safleoedd hyn sy'n perfformio'n wael yn gyson.

**Cwestiwn 3. Ydych chi'n credu y dylai gweithredwyr â pherfformiad gwael, cronig dalu mwy ar ôl dwy flynedd olynol?**

**Cwestiwn 4. Sut ddylem ni adlewyrchu gwelliant mewn perfformiad pan fo gweithredwyr yn symud i well bandiau perfformiad, e.e. symud o Fand F i Fand E?**

**Cwestiwn 5. Sut ddylem ni ymateb pan fo gweithredwyr yn pendilio rhwng band perfformiad cyfartalog i wael? Er enghraifft Band C i Band E i Fand C i Fand D?**

# 4. Taliadau Newydd

## 4.1 Trwyddedu Amgylcheddol – Perygl o Lifogydd

### Cefndir

Yn ôl Deddf Adnoddau Dŵr 1991, rhaid cael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwneud gwaith penodol yn, dros, o dan neu ger prif afon. Hefyd mae'n pennu'r gost y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ei chodi am benderfynu ynghylch Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd ar sail £50 fesul strwythur. Nid yw'r swm hwn wedi newid ers 1991 ac ar hyn o bryd mae'r broses ganiatáu a weithredir yn gwneud colled ariannol, gydag unrhyw ddiffyg yn cael ei ariannu drwy Gymorth Grant.

Bydd newidiadau i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn eu hymestyn i gynnwys Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd, a fydd yn dod i rym yn 2016. Bydd y rheoliadau diwygiedig yn cyflwyno gwaharddiadau ac eithriadau a fydd yn golygu y caniateir rhai gweithgareddau yn, dros, o dan neu ger prif afon heb godi tâl a heb fod angen caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru, ar yr amod y bodlonir amodau penodol. Bydd yn rhaid i unrhyw beth nad yw'n waharddiad neu eithriad gael trwydded bwrpasol ar gyfer gweithgareddau lle ceir perygl llifogydd (ceir mwy o fanylion ynglŷn â beth yw gweithgaredd lle ceir perygl o lyfogydd yn Atodiad 1). O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol diwygiedig, gallai Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno cynllun codi tâl sy'n gosod ffioedd ar gyfer ymgeisio am drwyddedau pwrpasol newydd, yn amrywio trwyddedau ac yn sicrhau tâl parhaus i adennill ein costau. Cytunwyd yn flaenorol y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru fachu ar y cyfle ymarferol cynharaf posibl i newid y drefn daliadau gyfredol, felly rydym yn amcanu at gael cynllun taliadau newydd yn ei le erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2016-17.

### Ein Cynnig

Rydym yn cynnig cynllun yn seiliedig ar haenau ar gyfer taliadau ymgeisio ar gyfer trwydded ar gyfer gweithgareddau lle ceir perygl o lifogydd. Datblygwyd y cynllun yn seiliedig ar ddau brif ffactor:

1. Y math o waith lle ceir perygl llifogydd a'r cymhlethdod a'r perygl cysylltiedig;
2. Lleoliad y gwaith arfaethedig lle ceir perygl llifogydd o bersbectif perygl llifogydd ac amgylcheddol.

Bydd pa mor agos yw'r gweithgareddau arfaethedig i'r adeilad heblaw am adeilad amaethyddol yn effeithio ar yr amser y bydd penderfyniad ynglŷn â thrwydded yn ei gymryd oherwydd yr angen i asesu'r effaith ar y perygl o lifogydd. Hefyd, os yw'r gweithgaredd yn cymryd lle o fewn safle dynodedig (ceir diffiniad o safleoedd dynodedig yn Atodiad 2), bydd hynny hefyd yn cymryd mwy o amser gan y bydd angen i ni sicrhau na fydd unrhyw ddirywiad amaethyddol.

Mae'r cynllun taliadau arfaethedig ar gyfer trwyddedau gweithgareddau lle ceir perygl llifogydd yn defnyddio'r ffactorau hyn mewn matrics i bennu sgôr pob cais yn ôl cymhlethdod, risg a lleoliad, gweler Tabl 2. Bydd y matrics yn pennu sgôr cynigion o 1 i 9, 1 yw'r risg isaf a 9 yw'r uchaf. Yna gellir gosod y sgorau mewn tri band taliadau ar gyfer gwaith lle ceir perygl llifogydd: Isel; Canolig; ac Uchel.

Tabl 2. Matrics risg ar gyfer asesu a phennu sgôr gweithgareddau lle ceir perygl llifogydd.

| | | Lleoliad y gwaith dros 100m at yr adeilad heb fod yn amaethyddol agosaf ar y gorlifdir | | Lleoliad y gwaith o fewn 100m at adeilad heb fod yn amaethyddol gerllaw agosaf ar y gorlifdir | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Safle dynodedig** | **Safle sydd ddim yn ddynodedig** | **Safle dynodedig** | **Safle sydd ddim yn ddynodedig** |
| **Gweithgareddau** | **Sgôr risg** | 2 | 1 | 3 | 2 |
| Pontydd / Cwlferi | 3 | 6 | 3 | 9 | 6 |
| Gollyngfeydd | 1 | 2 | 1 | 3 | 2 |
| Diogelu glannau | 2 | 4 | 2 | 6 | 4 |
| Coredau / Cronfeydd / Llifddorau | 3 | 6 | 3 | 9 | 6 |
| Gwasanaeth sy’n croesi | 3 | 6 | 3 | 9 | 6 |
| Unrhyw waith ar ôl tyllu | 3 | 6 | 3 | 9 | 6 |
| Tynnu gro / carthu | 3 | 6 | 3 | 9 | 6 |
| Gwaith ar orlifdir | 2 | 4 | 2 | 6 | 4 |
| Gwaith dros dro’n unig | 3 | 6 | 3 | 9 | 6 |
| Gwaith i asedau FRM newydd a phresennol (rhai sy’n eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru ac eiddo preifat) | 3 | 6 | 3 | 9 | 6 |
| Caniatâd cynllunio * | 1 | 2 | 1 | 3 | 2 |

* Os rhoddwyd caniatâd blaenorol i drwydded ar gyfer gwaith lle ceir perygl llifogydd, bydd pob agwedd o’r drwydded perygl llifogydd eisoes wedi eu hystyried, felly ni fydd angen cymaint o amser i benderfynu.

Mae’r tâl ar gyfer pob band wedi ei osod ar ffigwr i alluogi adennill costau sicrhau trwydded am weithgaredd lle ceir perygl o lifogydd. Yn ogystal, bydd pob band taliad yn cynnwys lwfans ar gyfer cyngor a thrafod cyn-ymgeisio, o fewn y taliad cyfan. Mae cyngor cyn-ymgeisio yn gwella ansawdd y cais ac yn lleihau’r amser a gaiff ei dreulio yn asesu ceisiadau gan staff, yn gwella boddhad y cwsmer ac yn helpu annog ymgeisio yn hytrach nag osgoi. Hoffem annog y broses cyn-ymgeisio am y rhesymau hyn. Mae’r cynhwysiant EPR arferol ar gyfer 15 awr o gyngor cyn-ymgeisio, sydd fwy na thebyg yn rhy fawr ar gyfer y pwrpas hwn, ond byddem yn dal i fod yn awyddus i gynnwys lwfans bychan, wedi ei haenu yn ôl risg y cais.

Mae’r taliadau arfaethedig ar gyfer trwydded unigol gweithgaredd lle ceir perygl llifogydd, a lefel y cyngor cyn-ymgeisio sy’n cael ei gynnwys fel a ganlyn:

| **Sgôr Perygl** | **Band** | **Tâl** | **Lwfans cyn-ymgeisio wedi ei gynnwys yn y tâl** |
|---|---|---|---|
| 1 – 3 | Isel | £230 | 1 awr |
| 4 – 6 | Canolig | £320 | 2 awr |
| 7 - 9 | Uchel | £580 | 3 awr |

## Taliadau Eraill

**Taliadau cynhaliaeth**

Mae taliadau cynhaliaeth yn cwmpasu ein costau rheoliadol parhaus yn dilyn caniatáu trwydded. Ar gyfer trwyddedau unigol am weithgaredd lle ceir perygl o lifogydd, bydd taliadau cynhaliaeth yn cwmpasu costau gwirio cydymffurfiaeth gydag amodau’r drwydded. Byddwn yn gwneud gwaith cydymffurfiaeth ar sail risg, gyda’r ffocws ar y trwyddedau ar gyfer gwaith lle ceir perygl llifogydd sy’n peri’r risg fwyaf i’r amgylchedd neu o ran perygl llifogydd. Rydym yn amcangyfrif y byddai hyn yn cymryd 2 awr ar gyfartaledd ond mae’n bosib bydd hyn yn llai ar gyfer ceisiadau sydd â llai o risg, ac yn fwy ar gyfer ceisiadau sydd â risg uwch. Codir y tâl yma unwaith yn unig, unwaith y bydd yr ymweliad wedi ei wneud. Gallai’r tâl hwn gynnwys sawl ymweliad â’r safle gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn cael ei wneud ar yr amser priodol ar ôl cyflwyno trwydded i asesu a yw’r gwaith yn cydymffurfio ag amodau’r drwydded. Bydd yn amod o’r drwydded fod y gweithredwr yn dweud wrthym pryd bydd y gwaith a ganiateir yn dechrau, fel y gallwn amseru ein gwaith cydymffurfio a’n hanfoneb ar wahân.

Gan fod hyn yn seiliedig ar risg, rydym yn bwriadu codi taliadau parhau fel a ganlyn:

| Band | Tâl |
|---|---|
| Isel | £40 |
| Canolig | £80 |
| Uchel | £120 |

**Taliadau ar gyfer strwythurau lluosog**

Teimlwn y dylai lleihad costau fod ar gael ar gyfer ceisiadau ar gyfer mwy nag un strwythur yn hytrach na chodi’r gost lawn ar gyfer bob un. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried sut y gellid gweithredu hyn, ac yn croesawu eich barn ynglŷn â sut y gallai hyn weithio.

**Tâl ar gyfer amrywio trwydded**

Am y tro cyntaf gallwn adfer costau amrywiadau i drwyddedau. Mewn cymhariaeth â chynlluniau EPR eraill, mae’n anodd mesur faint o amrywiadau yr ydym yn debygol o’u derbyn a pha mor hir y bydd yn ei gymryd i benderfynu ynghylch gweithgareddau perygl llifogydd.

Rydym yn cynnig felly na fydd tâl ar gyfer amrywio trwydded gweithgaredd perygl llifogydd ar gyfer yr iteriad cyntaf hwn o’r cynllun taliadau . Byddwn yn monitro hyn drwy gydol y flwyddyn ac yn ei adolygu yn y dyfodol.

**Tâl ar gyfer ildio trwydded**

Hefyd, am y tro cyntaf drwy EPR, rydym yn gallu adfer costau ar gyfer gwaith cysylltiedig ag ildio trwydded. Ar hyn o bryd, nid oes gennym dystiolaeth nac enghraifft o gost debygol hyn.

Rydym felly yn cynnig na fydd unrhyw dâl ar gyfer ildio trwydded gwaith cysylltiedig â pherygl llifogydd ar gyfer yr iteriad cyntaf hwn o’r cynllun taliadau. Byddwn yn monitro hyn drwy gydol y flwyddyn ac yn ei adolygu yn y dyfodol.

## Tystiolaeth

Defnyddiwyd data cofnodi amser gan staff gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfrifo’r amser penderfynu cyfartalog ar gyfer pob band risg ar sail oriau. Defnyddiwyd lwfans cyfeiliornad ar gyfer pob ffigwr cyfartalog ar gyfer camgymeriadau yn y sampl data ynghyd ag ychwanegu dwy awr ar gyfer trafodaeth cyn-ymgeisio cyn lluosi’r ffigwr cyffredinol â chyfradd fesul awr i roi’r cyfanswm tâl ar gyfer y band.

**Cwestiwn 6. Ydi'r matrics risg yn hawdd ei ddeall?**

**Cwestiwn 7. Ydych chi'n cytuno â'r bandiau taliadau arfaethedig a'r taliadau ar gyfer trwyddedau gwaith lle ceir perygl llifogydd?**

**Cwestiwn 8. A ddylai'r taliadau hyn fod yn berthnasol ar gyfer gwaith a wneir gan unrhyw un, neu a ddylid gwneud eithriadau (er enghraifft, elusennau)?**

**Cwestiwn 9. Ydych chi'n cytuno â'r elfen sy'n cael ei chynnwys cyn-ymgeisio o fewn y taliadau?**

**Cwestiwn 10. Pa ffactorau ddylem ni eu hystyried wrth benderfynu sut yr ydym yn cynnig lleihad mewn costau ar gyfer trwyddedau ar gyfer mwy nag un strwythur?**

**Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno gyda chyflwyno taliad yn seiliedig ar risg ar sail haenau ar gyfer cynhaliaeth, neu a fyddech yn ffafrio un taliad?**

**Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i beidio â chodi tâl o gwbl am amrywio ac ildio trwydded am flwyddyn gyntaf y cynllun taliadau?**

## 5. Taliadau Eraill y tu allan i'r Adolygiad hwn

Mae newidiadau eraill mewn perthynas â'n taliadau yr ydym yn dymuno tynnu sylw atynt. Naill ai ymgynghorwyd ar y rhain ar wahân y llynedd, neu maent yn gysylltiedig ag agweddau penodol o'r cynllun taliadau a allai fod o ddiddordeb penodol i dalwyr taliadau ac y byddai'n fuddiol eu hesbonio.

### 5.1 Codi tâl am Wasanaethau Cyngor Cynllunio Atodol

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ystod eang o ddyletswyddau yn y system Cynllunio Gwlad a Thref. Ein prif rôl yw fel ymgynghorai statudol sy'n darparu tystiolaeth a chyngor i ddatblygwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau ar effeithiau posibl polisïau cynllunio a chynigion datblygu ar ein hamgylchedd a'n hadnoddau naturiol.

Yn aml mae cwsmeriaid yn gofyn am fewnbwn pellach ar lefel sydd y tu hwnt i lefel ein dyletswyddau statudol. Rydym yn gwerthfawrogi ymgysylltu'n gynnar ac effeithiol a'r budd sy'n deillio o hynny i'n cwsmeriaid a'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae'n her gynyddol ariannu ein gwaith statudol a'r rôl ymgynghorol ddewisol ychwanegol.

I sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth cyson drwy Gymru sy'n bodloni safonau ein cwsmeriaid, y llynedd ymgynghorwyd ar gynnig i gyflwyno gwasanaeth y codir tâl amdano ar gyfer rhai agweddau o'n gwasanaeth cynllunio datblygu. Roedd yr adborth a gafwyd yn ymgynghoriad y llynedd ar y cyfan yn gadarnhaol ac o ganlyniad rydym yn bwrw ymlaen i ddatblygu'r gwasanaeth hwn.

Rydym wedi dysgu drwy brofiad sefydliadau eraill sydd wedi sefydlu cynlluniau tebyg, ac ar y sail hon rydym wedi datblygu nifer o egwyddorion y bwriadwn eu defnyddio fel sylfaen i'n gwasanaeth ein hunain y codir tâl amdano. Yn sgil yr ymgynghoriad hwn, rydym yn bwriadu dechrau trafod yn ehangach gyda'n rhanddeiliaid beth yw eu disgwyliadau a'u gofynion o safbwynt y gwasanaeth hwn. Yna byddwn yn ymgynghori ar fanylion y cynllun yn hydref 2016, gyda'r nod o'i gyflwyno erbyn Ebrill 2017.

## Egwyddorion

**1. Byddwn yn datblygu gwasanaeth safonol a fydd ar gael am ddim.**

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n datblygu gwasanaeth safonol am ddim, a fydd yn gyson drwy Gymru. Byddwn yn mireinio ymhellach yr hyn a gynigir fel rhan o'r gwasanaeth hwn, ond fan leiaf, rydym yn cynnig y dylai gynnwys yr agweddau hynny o'n cyngor lle mae gennym rôl statudol. Yn ogystal â hyn, bydd y gwasanaeth am ddim yn cynnig barn gychwynnol ar y cyfyngiadau a'r cyfleoedd amgylcheddol a allai effeithio ar ddatblygiad arfaethedig a bydd yn cyfeirio ein cwsmeriaid at unrhyw ganllawiau perthnasol a allai eu helpu i gyflwyno eu cais.

**2. Byddwn yn cynnig gwasanaethau ychwanegol am dâl.**

Os bydd cwsmer yn penderfynu y byddai eu cais yn elwa o gael mewnbwn pellach gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd y tu allan i gwmpas y gwasanaeth cyngor cynllunio safonol, byddwn yn cynnig iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth cyngor cynllunio atodol y codir tâl amdano. Byddwn yn amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael a'r costau, a dewis y cwsmer fydd penderfynu pa un o'r gwasanaethau hyn y byddai'n hoffi eu defnyddio, os o gwbl. Rydym yn bwriadu cynnig y gwasanaeth cyngor cynllunio atodol hwn yn ystod holl gamau datblygiad ac ar gyfer pob math o ddatblygiad sy'n galw am gymorth gennym ni.

Bydd y gwasanaeth yn cael ei weithredu ar sail y ffaith na fydd yn effeithio rôl Cyfoeth Naturiol Cymru fel cynghorydd annibynnol yn y broses cynllunio. Bydd unrhyw gyngor a roddir yn cael ei roi heb unrhyw ragfarn, ac ni fydd yn ymrwymo Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi'r cynnig unwaith y bydd wedi ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol.

Bydd yn cael ei gynnig i ddatblygwyr, eu hasiantau ac unrhyw un sy'n gweithredu fel datblygwr. Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar gynnig cyngor, ac ymdrinnir ag unrhyw drwydded ofynnol ar wahân fel rhan o'n gwasanaeth trwyddedu.

**3. Rydym yn bwriadu defnyddio cynllun taliadau ar sail haenau ar gyfer gwasanaeth cyngor cynllunio atodol**

Rydym yn bwriadu cynnig y gwasanaeth y codir tâl amdano ar sail adennill costau ac yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn asesu'r cyfraddau y dylid eu gosod. I sicrhau bod y drefn yn eglur i'n cwsmeriaid ac i wneud y broses o weinyddu'r cynllun yn haws, rydym yn ystyried cyflwyno cynllun taliadau ar sail haenau. Gallai hwn ddefnyddio cyfraddau safonol ar gyfer tasgau cymharol syml, fel mynychu cyfarfodydd safle, cyfraddau fesul awr ar gyfer tasgau mwy cymhleth ac mewn achosion eithriadol gallem ofyn am gyfandaliad ar ddechrau'r gwaith. Bwriadwn ddefnyddio'r opsiwn olaf yn unig ar gyfer achosion lle mae angen cryn fuddsoddiad ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

**4. Byddwn yn parhau i gynnig trefniadau pwrpasol yn y cyfnod interim.**

Ein nod yw cyflwyno'r gwasanaeth y codir tâl amdano ar ddechrau 2017 a bydd mwy o fanylion am hyn yn yr ymgynghoriad y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol fod rhai cwsmeriaid eisoes yn awyddus i ni gyfrannu'n helaethach at y gwaith y maent yn ei wneud. Yn y gorffennol rydym wedi gwneud nifer o drefniadau pwrpasol ar gais cwsmeriaid i sicrhau ein bod yn gallu darparu'r gwasanaethau ychwanegol hyn. Yn y cyfnod interim cyn cyflwyno'r gwasanaeth y codir tâl amdano, rydym yn bwriadu sicrhau bod yr opsiwn o wneud

trefniadau pwrpasol yn dal ar gael. Byddwn yn cynnig yr opsiwn hwn i geisiadau ar raddfa fawr sy'n debygol o fod angen lefel sylweddol o gysylltiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Os bydd datblygwr yn penderfynu defnyddio'r opsiwn hwn byddwn yn gwneud trefniadau talu i ffurfioli'r cytundeb.

**Cwestiwn 13. Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a amlinellir?**

**Cwestiwn 14. Ydych chi'n cytuno y dylid cynnig gwasanaeth y codir tâl amdano ar gyfer pob math o gais ac yn ystod pob cam? Neu ydych chi'n credu y dylid cyfyngu'r gwasanaeth i fathau neu gamau penodol o gais, fel datblygiadau sydd dros faint penodol neu yn ystod cam cyn-ymgeisio datblygiad?**

**Cwestiwn 15. Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i gyflwyno cynllun taliadau ar sail haenau? Oes unrhyw opsiynau taliadau eraill y dylem eu hystyried?**

**Cwestiwn 16. Ydych chi'n cefnogi ein bwriad i barhau i gynnig yr opsiwn i wneud trefniadau pwrpasol yn y cyfnod interim?**

### 5.2 Trwyddedu Morol

Mae ffioedd presennol ar gyfer gweithgareddau Trwyddedu Morol Cymru wedi eu gosod mewn deddfwriaeth a'u gweinyddu gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i adolygu'r taliadau hyn, gan edrych yn benodol ar dair prif agwedd:

- strwythur y ffi;
- codi tâl am weithgareddau a nodir yn y Rheoliadau Gwaith Morol a;
- phwerau newydd i godi tâl drwy'r Bil Amgylcheddol

Bydd yr adolygiad yn amcanu i adennill y costau llawn a byddwn yn ystyried unrhyw welliannau y mae angen eu gwneud i'r broses. Mae Grŵp Llywio wedi ei sefydlu i oruchwylio'r adolygiad hwn, a sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid anffurfiol i helpu i lywio a dylanwadu ar y broses hon. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2016 unwaith y bydd unrhyw bwerau newydd i godi tâl yn deillio o'r Bil Amgylcheddol yn cael eu cymeradwyo. Rhagwelir y byddai'r strwythur ffioedd newydd a'i daliadau cysylltiedig yn dod i rym erbyn Ebrill 2017.

### 5.3 Y Gyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni

O dan Erthygl 14 o Gyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni mae'n ofynnol i weithredwyr gweithfeydd llosgi newydd neu rai a adnewyddwyd yn sylweddol gynnal asesiad cost a budd i weld a oes unrhyw gyfleoedd ar gyfer gwres a phŵer cyfunedig. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwneud gwaith ychwanegol i ddadansoddi ac asesu ceisiadau o dan Erthygl 14. Tra nad yw'r cynllun taliadau cyfredol ac un 2016-17 yn cynnwys tâl am y gwaith ychwanegol hwn, rydym yn rhagweld y bydd cynllun taliadau 2017-18 a thu hwnt yn ceisio adennill y costau yn ogystal ag unrhyw ffi ymgeisio.

# 6. Materion Eraill i'w Nodi

### 6.1 Cysylltiadau â Chynllun Gwerthuso Risg Gweithredol (OPRA) Trwyddedu Amgylcheddol

Mae'r Cynllun Gwerthuso Risg Gweithredol (OPRA) Trwyddedu Amgylcheddol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gyfrifo taliadau ar gyfer rhai gweithgareddau a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Trwy ein hymgynghoriad y llynedd amlinellwyd ein bwriad i gynnal adolygiad sylweddol o'n ffioedd a'n taliadau cyfredol erbyn 2018 a'n dull o weithredu cynllun OPRA hyd at yr amser hwnnw.

Mae'r Cynllun OPRA yn cael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac i leihau unrhyw ddryswch, hyd nes y byddwn wedi cwblhau ein hadolygiad ehangach, fel y nodwyd uchod, rydym yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o Gynllun OPRA Trwyddedu Amgylcheddol, fel y cyhoeddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Felly rydym yn annog talwyr taliadau Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfeirio at ymgynghoriadau taliadau Asiantaeth yr Amgylchedd yn y dyfodol lle eglurir unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau technegol i'r Cynllun OPRA. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd[4].

# 7. Ymateb i'r Ymgynghoriad hwn

Rydym yn gofyn am eich sylwadau a'ch barn ar y cynigion ar gyfer ein ffioedd a'n taliadau yn 2015/16, yn ogystal â gofyn am sylwadau a syniadau cychwynnol ar sut y bydd ein strategaeth a'n cynlluniau taliadau'n edrych yn y dyfodol.

### 7.1 Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer anfon ymatebion yw 26 Tachwedd 2015.

Gallwch ymateb yn y ffyrdd canlynol.

### E-bost

feesandchargesconsultation@naturalresourceswales.gov.uk

### Post

Ymateb i Ymgynghoriad Taliadau

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

---

[4] https://www.gov.uk/government/collections/environment-agency-charging-schemes

### Rhif ffôn

0300 065 3000

### Ar-lein

Ar gael ar ein gwefan: www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## 7.2 Diogelu Data

### Sut y defnyddir y sylwadau a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch yn cael ei weld yn llawn gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad. Hefyd mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Cyfoeth Naturiol Cymru'n ei weld er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Bwriadwn gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y cyhoeddwn ymatebion yn llawn. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad y sawl sy'n ymateb gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi ei gynnal yn briodol. Os nad ydych eisiau i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi rhowch wybod i ni wrth ddychwelyd eich ymateb a byddwn yn eu dileu o ddeunydd cyhoeddedig.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio'n cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan nifer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os bydd rhywun yn gofyn i gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid i ni benderfynu am ydym ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad yna mae'n ffactor pwysig y byddem yn ei ystyried. Fodd bynnag, gallai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'i chyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## 7.3 Camau Nesaf

Yn dilyn yr ymgynghoriad byddwn yn cyhoeddi'r holl sylwadau (ac eithrio gwybodaeth bersonol fel y manylir uchod) a'n hymatebion ar ein gwefan. Os byddwch yn cynnwys cyfeiriad e-bost yn eich ymateb byddwn yn cydnabod eich ymateb ac yn rhoi gwybod i chi pan fydd crynodeb o'r ymatebion wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan.

## Atodiad 1 – Diffiniad o Weithgaredd gyda Risg Llifogydd fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Drafft Caniatâd Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2015

Nodyn: Mae'r Rheoliadau hyn ar gael yn Saesneg yn unig.

(a) erecting any structure (whether temporary or permanent) in, over or under a main river;

(b) the carrying out of any work of alteration or repair on any structure (whether temporary or permanent) in, over or under a main river if the work is likely to affect the flow of water in the main river or to impact on any drainage work;

(c) erecting or altering any structure (whether temporary or permanent) designed to contain or divert the floodwaters of any part of a main river;

(d) any dredging, raising or taking of any sand, silt, ballast, clay, gravel or other materials from or off the bed or banks of a main river (or causing such materials to be dredged, raised or taken), including hydrodynamic dredging and desilting;

(e) any activity which is likely to divert the direction of the flow of water into or out of a main river or alter the level of water in a main river;

(f) any activity within 8 metres of a non-tidal main river (or within 8 metres of any flood defence structure or culvert on that river) or any activity within 16 metres of a tidal main river (or within 16 metres of any flood defence structure or culvert on that river) which is likely to—

   (i) cause damage to or endanger the stability of the banks of that river or of any culvert,

   (ii) cause damage to any river control works,

   (iii) alter, reconstruct, discontinue or remove any river control works,

   (iv) divert or obstruct flood waters or impact on the drainage of that river, or

   (v) interfere with the regulator's access to and along that river;

(g) any activity (other than an allowed activity) on a flood plain that is—

   (i) more than 8 metres from a non-tidal main river or more than 16 metres from a tidal main river, or

   (ii) more than 8 metres from any flood defence structure or culvert on a non-tidal main river or more than 16 metres from any flood defence structure or culvert on a tidal main river,

   which is likely to divert or obstruct floodwaters, to damage any river control works or to impact on drainage;

(h) any activity within 16 metres of the base of a sea defence which is likely to—

   (i) endanger the stability of, cause damage to or reduce the effectiveness of that sea defence, or

   (ii) interfere with the regulator's access to and along that sea defence;

(i) any activity within 8 metres of the base of a remote defence which is likely to—

   (i) endanger the stability of, cause damage to or reduce the effectiveness of that defence, or

   (ii) interfere with the regulator's access to and along that defence;

(j) any quarrying or excavation within 16 metres of the base of a remote defence which is likely to cause damage to or endanger the stability of that defence;

(k) any quarrying or excavation within 16 metres of a main river or any flood defence or culvert on that river which is likely to cause damage to or endanger the stability of the banks of that river.

## Atodiad 2 – Safleoedd Dynodedig

Mae safle dynodedig yng nghyd-destun y matrics gweithgaredd yn golygu:

- safle Ewropeaidd o fewn cyd-destun y Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010;
- safle Ramsar o fewn cyd-destun adran 37A Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;
- safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig wedi ei ddynodi o dan y Ddeddf honno;
- gwarchodfa natur wedi ei sefydlu gan awdurdod lleol o dan adran 21 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.